UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Cwestiynau UCAC i Lywodraeth Cymru

**1. Pa staff ddylai/na ddylai ddychwelyd i'r ysgol?**

Mae angen eglurder yn y disgwyliad mewn perthynas â phwy y disgwylir i fod yn bresennol yn yr ysgol, a chyngor clir ynghylch gwahanol setiau o amgylchiadau a senarios. Nodwn y wybodaeth gychwynnol a ddatganwyd ar adeg cyhoeddiad y Gweinidog.

**(i) Materion iechyd**

- y rhai sy'n gwarchod; y rhai sy'n cyd-fyw gyda rhywun sy'n gwarchod
- y rhai mwyaf bregus (gan gynnwys menywod beichiog); y rhai sy'n cyd-fyw gyda rhywun sy'n fwy bregus
- y rhai sy'n dioddef o or-bryder a chyflyrau iechyd meddwl perthnasol eraill

**(ii) Dyletswyddau gofal**

Mae angen eglurder a chysondeb ynghylch sefyllfa'r categorïau canlynol o athrawon - eu hawl i weithio gartref ac, os oes angen, i gael hyblygrwydd mewn perthynas â'u horiau gwaith:

- rhieni plant ifanc nad oes darpariaeth gofal plant ar waith ar eu cyfer
- rhieni nad ydyn nhw eisiau anfon eu plant i hwb neu yn ôl i'r ysgol (am ba bynnag reswm)
- y rhai sy'n ofalwyr i aelodau eraill o'u teulu ac nad oes darpariaeth amgen, neu ddigonol arall ar eu cyfer

**(iii) Pellteroedd teithio**

Beth sy'n cael ei ystyried yn bellter teithio diogel/derbyniol i staff gyrraedd yr ysgol? Mae nifer sylweddol o athrawon yn teithio ymhellach na'r terfyn 5 milltir sydd ar waith ar hyn o bryd, ac mae llawer yn teithio pellteroedd llawer mwy e.e. 30 neu 40 milltir.

**2. Yr wythnos 'ychwanegol' 18-24 Gorffennaf**

Mae angen i'r canllawiau egluro beth ddylai ddigwydd i staff yn y categorïau canlynol:

- y rhai sydd â gwyliau wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos dan sylw (ac nad yw cwmnïau gwyliau wedi canslo hyd yma)
- y rhai y gallai aelodau eu teulu fod wedi trefnu gwyliau i gyd-fynd â'u gwyliau hwy (neu fod â threfniadau eraill e.e. priodasau)
- y rhai yr oedd eu gwasanaeth i fod i ddod i ben ar 31 Awst oherwydd ymddeoliad
- y rhai yr oedd eu gwasanaeth i fod i ddod i ben ar 31 Awst oherwydd diwedd y contract
- y rhai a fydd yn dechrau swydd newydd mewn ysgol newydd (ac o bosibl Awdurdod Lleol newydd) ar ddechrau'r flwyddyn academaidd
- y rhai sy'n gweithio'n llawn amser y tymor hwn ond sy'n dychwelyd ar gontract rhan amser ym mis Medi
- lle mae ysgol yn cau ar ddiwedd y flwyddyn ysgol

A ddylid disgwyl iddynt weithio'r wythnos ychwanegol ai peidio?

Os felly, lle bo hynny'n berthnasol, a ddylent dderbyn taliad yn lle'r wythnos ychwanegol o wyliau yn yr hydref?

**3. Lefelau staffio/Rhannu cyfrifoldebau**

Yn amlwg, bydd angen cynnal archwiliadau staff er mwyn canfod lefelau staffio realistig; bydd angen i'r rhain gynnwys staff addysgu a chymorth, yn ogystal â staff hanfodol eraill ar y safle fel glanhawyr a bydd angen eu diweddaru'n rheolaidd wrth i amgylchiadau unigol a mwy cyffredinol newid. Mae'r cwestiynau canlynol yn codi:

- faint o hyblygrwydd y mae'n briodol ei ofyn gan athrawon o ran grwpiau oedran a phynciau? [mae'n amlwg bod yn rhaid trafod unrhyw geisiadau o'r fath gyda'r staff yn unigol]
- a fydd yn dderbyniol cyflogi athrawon cyflenwi - ac os felly, pwy fydd yn talu'r bil? [deallwn fod o leiaf un Awdurdod Lleol wedi cyfarwyddo ysgolion i beidio â defnyddio athrawon cyflenwi yn ystod y cyfnod hwn]
- ar ba bwynt y dylai ysgolion ystyried lleihau gweithrediadau neu gau yn gyfan gwbl oherwydd diffyg staff; sut y dylid rheoli hyn?
- a ddylid disgwyl i athrawon nad ydyn nhw'n dysgu ar ddiwrnod/sesiwn benodol fod yn bresennol yn yr ysgol?
- pwy fydd yn gyfrifol am baratoi a darparu dysgu o bell pan fydd disgwyl i nifer fawr o athrawon fod mewn ysgolion sy'n dysgu wyneb yn wyneb?

**4. Cludiant**

- Sut y bydd yn bosibl sicrhau pellter cymdeithasol ar gludiant ysgol (bysiau, bysiau mini, tacsis)?
- A fydd Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo Awdurdodau Lleol i ddarparu cludiant ysgol? [rydym yn ymwybodol o un Awdurdod Lleol o leiaf sydd wedi nodi na fydd yn darparu cludiant ysgol a bod yn rhaid i rieni ddod â'u plant i'r ysgol os ydynt yn dymuno mynychu]
- A fydd trafnidiaeth gyhoeddus yn rhedeg?
- Beth sy'n cael ei ystyried yn bellter teithio diogel/derbyniol i ddisgyblion? Yn y sector cyfrwng Cymraeg, gall pellteroedd teithio fod yn sylweddol fwy

**5. Iechyd, hylendid, diogelwch a lles**

- Cyfrifoldeb pwy fydd cwblhau asesiadau risg ar gyfer ysgolion? Bydd angen eglurder ynghylch y mathau o asesiadau risg fydd yn ofynnol.
- Beth yw'r canllawiau ar ddefnyddio PPE?
- A oes gwarant o gyflenwadau digonol o PPE? [deallwn na fu cyflenwad digonol ar gyfer rhai hybiau]; a fydd staff a disgyblion yn cael defnyddio eu PPE eu hunain lle maen nhw'n dymuno gwneud hynny?
- A oes gwarant o gyflenwadau digonol o gynhyrchion hylendid hanfodol fel hylifau diheintio, tyweli dwylo ac ati.
- A oes archwiliad wedi'i gynnal mewn perthynas â digonolrwydd gwasanaethau glanhau? A oes gan y staff glanhau presennol ddigon o oriau ac arbenigedd i gyflawni'r gwaith glanhau dyddiol arbenigol ychwanegol sydd ei angen?
- A fydd yn ofynnol i staff addysgu diheintio offer yn eu hystafelloedd dosbarth?
- A fydd pob aelod o staff a phob disgybl sy'n dychwelyd yn cael eu profi?
- A fydd rhaglen dreigl o brofi yn cael ei sefydlu?
- A fydd gan yr holl staff a disgyblion fynediad at gwnsela?

**6. Ysgolion arbennig a dysgwyr ag ADY**

- A ragwelir y bydd ysgolion Arbennig yn ailagor ar gyfer pob dysgwr cyn yr haf?
- Pa gyngor fydd yn cael ei ddarparu i ysgolion prif ffrwd mewn perthynas â dysgwyr ag ADY - yn enwedig y rhai sydd fel arfer yn cael cefnogaeth un i un?

**7. Cyllidebau**

Heb os, bydd costau ychwanegol ynghlwm â chyflawni'r cynigion - yn ogystal ag unrhyw drefniadau y gellir eu rhoi ar waith ar gyfer tymor yr hydref (staffio, glanhau ychwanegol, cynhyrchion hylendid ychwanegol, cludiant ac ati). Mae angen brys am eglurder a chysondeb ynghylch sut y bydd yr arian hwn yn cael ei ddarparu a'i wario. Mae angen eglurder ar ysgolion ynglŷn â'u cyllidebau eu hunain.

- Pwy fydd yn talu am beth? Pa fecanweithiau cyllido fydd ar waith?

**8. Hybiau**

- Os bydd Hybiau'n parhau i weithredu y tu hwnt i oriau ysgol a thymor yr ysgol, a fyddant yn dod yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol (gan gynnwys y cyfrifoldeb i sicrhau presenoldeb aelod o staff sy'n gymwys mewn cymorth cyntaf) ac na fyddant bellach yn cynnwys staff addysgu? A fyddant yn lleihau eu dibyniaeth ar arweinwyr ysgolion, gan gynnwys sicrhau nad yw'n ofynnol iddynt fod ar y safle 8am - 6pm bob dydd, a sicrhau eu bod yn cael eu gwyliau statudol dros yr haf?
- A gynhaliwyd archwiliad o'r capasiti o fewn adeiladau ysgolion i gynnal darpariaeth hyb ochr yn ochr â rhoi cyfle i bob disgybl ddychwelyd cyn yr haf? Byddai angen i unrhyw archwiliad ystyried y gallai nifer y disgyblion yn yr hybiau gynyddu'n sylweddol pe bai staff ysgol yn dychwelyd i'r ysgol.
- A fydd gan athrawon hawl i ddod â'u plant i'r ddarpariaeth hyb yn yr ysgol y maen nhw'n gweithio ynddi?

**9. Hyfforddiant**

- Pa hyfforddiant a fydd yn cael ei darparu i sicrhau bod gan yr holl staff ddealltwriaeth drylwyr o'r systemau, polisïau a gofynion newydd (gweithdrefnau glanhau, symud trwy'r ysgol, offer a rennir e.e. ipad, offerynnau cerdd, beth i'w wneud mewn achos o salwch, dealltwriaeth o asesiadau risg ac ati)?

**10. Materion eraill**

- Beth yn union fydd y disgwyliad gan ysgolion? A yw'r pwyslais i fod ar les, ail-integreiddio, addysg, paratoi ar gyfer y tymor nesaf a'r 'normal newydd'? Mae angen cysondeb.
- Pryd y gall athrawon a disgyblion ddisgwyl eglurder ynghylch unrhyw addasiadau i ofynion cyrsiau/asesu ar gyfer Blynyddoedd 10 a 12 cyfredol? Mae diffyg eglurder ar y mater hwn yn broblemus o ran gallu athrawon i gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu disgyblion ac felly mae'n fater o frys
- Pa drefniadau pontio fydd yn dderbyniol ar gyfer Blwyddyn 6? A ganiateir ymweld â'r ysgol uwchradd yn gorfforol ai peidio? Os felly, a fyddai angen caniatâd penodol ar gyfer hyn gan rieni, ac a fyddai angen i athrawon unigol hefyd gytuno i fynd gyda nhw?
- A oes ystyriaeth wedi'i rhoi i staff sy'n dychwelyd cyn y disgyblion er mwyn paratoi'r ffordd?
- A roddwyd ystyriaeth i fater ymddygiad bygythiol/ymosodol gan ddisgyblion; bydd angen ystyried taro, cicio ac - yn benodol - poeri, a rhoi arweiniad ar sut y dylai ysgolion ymateb pan na fydd yr ataliad corfforol arferol ar gael iddynt
- A fyddai'n dderbyniol i ysgolion cynradd ganiatáu i ddisgyblion oed statudol ddychwelyd cyn yr haf yn unig?
- A fydd gwarant na fydd y diwrnod ysgol yn hwy na'r arfer?

**8 Mehefin 2020**